

Bwletin i Ddysgwyr

Ceredigion Powys a Sir Gâr
Medi 2022



Dysgu
Learn



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



Defnyddio fy Nghymraeg Using my Welsh

Da iawn ni! A chi!

Well done to us, and you!

Mae Estyn wedi cyhoeddi adroddiad arolygu ynglŷn â Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr, a gallwch chi weld yr adroddiad [yma](#).

Estyn has published an inspection report on Learn Welsh Ceredigion, Powys and Carmarthenshire, and you can read the report [here](#).

Mae Estyn wedi rhoi adroddiad rhagorol i ni. Diolch i chi am gymryd rhan yn yr arolwg ym mis Mai 2022, a llongyfarchiadau i chi! 'Dych chi'n gweithio'n galed i wella a defnyddio eich Cymraeg. Roedd Estyn yn gweld fod gyda ni ddysgwyr brwdfrydig sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd a'u gwaith.

Estyn has given us a glowing report. Thank you for taking part in the inspection in May 2022, and congratulations to you! We know that you work so hard to improve and to use your Welsh. Estyn saw that we have enthusiastic learners who use their Welsh in their daily lives and at work.

Diolch yn fawr hefyd i bawb yn y tîm sydd yn gweithio'n galed i greu cyrsiau a gweithgareddau diddorol.

A big thank you also to the team who work so hard to create interesting courses and activities.

Cofiwch fod croeso i chi roi adborth i ni unrhyw bryd, os dych chi eisiau canmol neu sôn am rywbeth sydd angen ei wella. Siaradwch â'ch tiwtor yn y lle cyntaf os gwelwch yn dda.

You are welcome to give us feedback at any time, whether you wish to say what's working well, or to talk about something that needs to be improved. Please talk to your tutor in the first instance.

Dymuniadau gorau i chi wrth i chi barhau i ddysgu a gwella eich Cymraeg dros y flwyddyn nesaf.


Best wishes to you as you continue to learn and improve your Welsh over the next year.

**Tîm Dysgu Cymraeg
Ceredigion Powys Sir Gâr**

**Learn Welsh Team
Ceredigion Powys Carmarthenshire**

[Fan hyn](#) mae adnoddau arbennig i'ch helpu i ddefnyddio eich Cymraeg bob dydd!

[Here's](#) some fantastic resources to help you use your Welsh every day!



Using My Welsh Scheme



Digital Resources



Cynllun Siarad



Exams



Cyffro mis Awst yn nhref Aberystwyth ac yn Ngheredigion Gan Felicity Roberts

Wedi llymder y cyfnod clo a gohirio Eisteddfod Ceredigion ddwy waith daeth yr haf yn ôl yma gan ffrwydro yn llwyddiant un o'r eisteddfodau gorau eto. Heidiodd pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt i'n prifwyl yma yng Ngheredigion, wrth eu boddau o gael gwneud tref fach Tregaron yn brifddinas y Gymru Gymraeg: prifddinas symudol lle mai'r Gymraeg yw'r norm ond lle y croesewir pawb, a thros 150,000 ohonon ni yn tyrru yno.

Yr wythnos gyntaf hon ym mis Awst roedd Dysgu Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth hefyd yn cynnal ein Cwrs Haf Dwys Cymraeg, mis o hyd, ar-lein. Cafwyd 83 o bobl o 10 o wahanol wledydd yn dysgu a siarad Cymraeg o 9 tan 5 am 4 wythnos. Ynglwm â'r Cwrs Haf ceir

rhaglen o weithgareddau difyr gyda'r nos, yn gwisiau hwyliog ac yn gyflwyniadau diddorol a'r rheiny'n agor cil y drws a rhoi rhagflas ar yr hyn mae Prifysgol Aberystwyth yn ei gynnig. Daeth Rhun Emlyn o'r Adran Hanes a Hanes Cymru a'i ddawn unigryw o roi cip ar fywyd yng Nghymru'r Oesoedd Canol, a Mererid Hopwood o Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn ein cyfareddu yn ei ffordd ddihafal wrth sôn am beth o'r arlwy y mae'r Adran yn ei chynnig.

Gwelwyd gwaith Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth a bwrlwm yr Eisteddfod yn ymblethu drwy i Gôr CYD Aberystwyth gael ei ddeffro o'i drymgwsg wedi cyfnod mudandod y pandemig, a phenderfynu rhoi i mewn i gystadlu yn yr Eisteddfod. Cafwyd 25 o bobl ynghyd o dan

arweinyddiaeth Nest Howells, a'u ¼ yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, a'r gweddill yn ddysgwyr y Gymraeg. Roedd yr aelodau wedi gwirioni o fod wedi cael y profiad o ganu ar lwyfan y pafiliwn, ac fe gafodd parti bach o'r côr y wobr gyntaf am ganu'r 'Gwcw'. Y ddau gyfeilydd dawnus ar y ffidil oedd Catherine Byers a Nick Smart.

Yn binacl efallai ar gyfaredd yr haf, oedd, i bedair o fyfyrwyr Adran Dysgu Cymraeg y Brifysgol gael eu derbyn i'r Orsedd. Buont yn astudio ers sawl blwyddyn mewn dosbarth Gloywi iaith gyda mi, cyn llwyddo â marciau gwych yn yr arholiad terfynol. Roedd yn brofiad gwefreiddiol i bob un. Ar ben hynny urddwyd Begotxu o Wlad y Basg am ei gwaith yn cydblethu hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, ac yn arbennig y Gymraeg a'r Fasgeg. Dysgodd hithau'r Gymraeg gyda ni yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, drwy i ni gydweithio â thim Mercator, sydd bellach dan adain Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones wrth y llyw.

Yn olaf ond nid yn lleiaf

chwaith, Lynne Blanchfield o'n tref ni, Aberystwyth, a enillodd Tlws Rhyddiaith y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi iddi eisoes gael ei hethol yn ddysgwr y flwyddyn gyda Phrifysgol Aberystwyth. Gosododd Lynne ei golygon yn uchel o'r dechrau, gan fynychu dau ddsbarth gyda mi bob wythnos, a chael cymorth rheolaidd gan y digymar Ioan Guile hefyd, heb sôn am fynychu dosbarthiadau cynganeddu gydag Eurig Salisbury ac eraill.

Dewch aton ni ac fe chwifwn ni'n ffon hud drosoch chwithau!

August celebrations in Aberystwyth and Ceredigion

A joyous taste of success following the Tregaron Eisteddfod held this August Ceredigion is still with us. The little town of Tregaron was the capital city of Welsh speaking Wales for a week, where Welsh is the norm but where all are welcome.

We saw the work of the University blending in with the Eisteddfod and contributing to making it a

success. As Welsh Tutor Organizer at Aberystwyth University I decided it was time for the Aberystwyth CYD Choir to wake from hibernation, and 25 ordinary Aberystwythites were thrilled to find themselves singing on the pavilion stage, being televised. Nest Howells wrote our words and was our musical director.

The pinnacle of Eisteddfod success for our Learn Welsh Department was when four of our adult learners received the prestigious honour of being accepted into the bardic circle following their success in the final entrance examination, after years of hard work in class. Begotxu Olazaila from the Basg Country who learnt Welsh with us became an honorary member for her International work on behalf of minority languages in conjunction with Mercator.

Last but not least, it was Lynne Blanchfield who won the learners prose medal at the National Eisteddfod! It is very well-deserved, as Lynne has put so much time, energy and love into mastering the Welsh language. Lynne also won our Welsh Learner of the Year award for 2022 (Ceredigion Powys Carms).



Cymorth Ariannol Financial Support

Mae **cymorth ariannol** ar gael os dych chi'n mynychu cwrs Dysgu Cymraeg drwy'r Gronfa Ariannol.

Mae'n bosib cael cymorth gyda:

- * chostau offer cyfrifiadurol
- * mynediad i'r rhyngwyd
- * gofal plant
- * adnoddau
- * costau teithio

Yn anffodus, nid oes modd hawlio cymorth at ffioedd cwrs.

Financial support is available to those attending a Learn Welsh course via the Financial Contingency Fund.

Support is available with costs such as

- * computer equipment
- * internet access
- * childcare
- * resources
- * travel costs

Unfortunately, it is not possible to claim for course fees.



Côr Cymraeg Machynlleth

Sadwrn | **Saturday 11:00 - 13:00** Y Senedd
Sadwrn Medi **24 September 2022** £5
4ydd nos Sadwrn o'r mis | **4th Saturday of each month**
Croeso i ddysgwyr ar bob lefel a siaradwyr rhugl
Learners and fluent Welsh speakers Welcome!

Mae Côr Cymraeg Machynlleth yn ail-ddechrau gydag arweinydd gwadd annisgwyl - Owen Shiers. Yn ganwr-gyfansoddwr, ei hun, mae hefyd wedi chwilio ac adfywio caneuon Gorllewin a Chanolbarth Cymru gan ddarparu ffenestr unigryw i'r gorffennol ac i ddiwylliant llafar bywiog o stori a chaneuon. Mae'n £5 yn unig ac yn cynnwys paned a bisgedi.

The Cor Cymraeg Machynlleth is back with a surprise guest leader - Owain Shiers. A singer songwriter, himself, he's also searched out and revived songs of West and Mid-Wales providing a unique window into the past and to a vibrant oral culture of story and songs. It's just £5 with includes a cuppa and biscuits.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Fran ar jacksonfranf@yahoo.co.uk neu Bethan ar morganbethan@hotmail.com

For more information contact Fran at jacksonfranf@yahoo.co.uk or Bethan at morganbethan@hotmail.com

Mae mynediad gwastad i'r ystafell ond mae'r toiledau ar lawr cyntaf yr adeilad cyfagos. Dewch drwy'r Siop Lyfrau Cymraeg i ddod o hyd i ni.

The room is level access but the toilets are on the first floor in the neighbouring building. Come through the Welsh Bookshop to find us.

Want to enjoy your Cymraeg between each class?

Come and find out more about **Duolingo** and **SaySomethinginWelsh**.

You can use them to:

- Go over what you've learnt in class.
- Pick up new vocabulary.
- Practise your pronunciation.

Dych chi'n gallu mwynhau eich Cymraeg rhwng eich dosbarthiadau gyda **Duolingo** a **SaySomethinginWelsh** - mae'n hwyl ac yn ffordd dda o ymarfer ac adeiladu hyder.

We'll be holding three virtual information sessions on:

8 November at 9.30am, 2.00pm, and 7.00pm.

Just choose the time that suits you best and sign up today - bydd croeso cynnes i chi!




dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Uywodiath Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn





Would you like to speak Welsh at home?

#Clwb Cwtsh is a short, informal, fun-filled 8-week taster programme focussed on speaking Welsh with young children (and is aimed at parents to be, parents/carers, members of the extended family). Course start dates are **September 2022, November 2022, February 2023 and May 2023.**

You don't need any Welsh to join so what are you waiting for?!

Ah...childcare's an issue?

Don't worry...lots of sessions are held on-line so you can learn from your sofa, and we also have face to face courses with entertainment provided for the children!


The cost?

Courses are free.

Want to know more?

www.learnwelsh.cymru/clwbcwtsh
www.meithrin.cymru/clwbcwtsh
01970 639639

@ClwbCwtsh
clwbcwtsh@meithrin.cymru



Mae #Clwb Cwtsh yn gwrs blasu #Cymraeg sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref.

Bydd yr holl sesiynau'n digwydd ar-lein felly ni fydd rhaid symud o'r sofffa!

Bydd y sesiynau yn hwyliog, ysgafn ac yn defnyddio canu a gemau gydag amser am banded (wrth gwrs)!



Dewch i ddysgu'r ukulele trwy gyfrwng y Gymraeg ar gwrs 10 wythnos i ddechreuwr!

Ar ddiwedd y cwrs byddwch yn gallu ymuno â Cherddorfa Iwca!wli.

Croeso cynnes i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob lefel.

Cychwyn: 6-7yh Nos Fawrth 4.10.22
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Pris: £30



Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru e-bostiwch:
steffan.rees@ceredigion.gov.uk



Clwb Llyfrau
Dysgwyr



Agor y Drws

Mis yr Yd

gan
Lois
Arnold
ac eraill
(i lefel
mynediad)



gan
Manon
Steffan
Ros
(i lefel
uwch)

Dechrau am 8yh

Dechrau am 8.30yh

Nos Fawrth - Hydref 4ydd

Tafarn Clarence (Yn yr ardd os bydd hi'n heulog!)

Croeso i bawb

Am fwy o wybodaeth: lij17@aber.ac.uk

DEWCH I FWYNHAU CWRS PENWYTHNOS!

Enjoy a Learn Welsh weekend course at Nant Gwrtheyrn, the National Welsh Language and Heritage Centre.

PRYD? 18 - 20/11/22

PA LEFEL? Canolradd, Uwch a Gloywi

Y Pris/ Cost:
£195

Dewch i fwynhau cyfarfod dysgwyr eraill mewn gwersi a sesiynau cymdeithasol. Bydd trip i Gaernarfon, gig, a chyfle i ddysgu am yr ardal leol. Y pris yw £195, sy'n cynnwys yr holl weithgareddau, bwyd, a llety en-suite.

Immerse yourself in the Welsh language and enjoy meeting other learners. There'll be a trip to Caernarfon, a music gig, and you can learn more about the local area. The price is £195, including all activities, food and en-suite accommodation.

Cofrestrwch erbyn/please register by: 23/10/22



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

nantgwrtheyrn



Caffi Cered

Dysgu Cymraeg? Ymunwch â chriw cyfoillgar am sgwrs ar Zoom. Cewch gyfarfod dygwyr eraill i gymdeithasu ac i ymarfer eich Cymraeg

Pob
Dydd
Llun
+
Dydd
Awonor
10-11 yb



I gofrestru aboatlwch rhodri.francis@ceredigion.gov.uk



Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..

PANED A PHAPUR CUPPA AND PAPER

Dydd Mercher (bob pythefnos) am 12yp
Wednesday (Fortnightly) at 12pm

Yn | At: Amgueddfa Wlân | Wool
Museum, Drefach Felindre

Cyfle i sgwrsio dros ddished mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.

I gofrestru | To register:
luned@mgsg.cymru



Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..

CLWB DARLLEN I DDYSGWYR

Book Club for Welsh Learners

Trydydd Nos Fawrth
bob mis am 7yh
Third Tuesday
of every
month at 7pm

I gofrestru cysylltwch â:
To register
contact:
nia@mgsg.cymru
01239 712934



Ar Gered

Teithiau Cerdded Cymraeg yn Y Topie

Ymunwch â Steff am daith gylochol gymhedrol o 9km o gwmpas ardal Cwmbwrwyno a Chwm Rheidol.

Dewch i fwynhau y golygfeydd a dysgu am natur a hanes yr ardal.

Croeso cynnes i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob lefel.

Dydd Sadwrn Medi 24ain
10.30 y.b.
Bwlch Nant yr Arian

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru e-bostiwch:
steffan.rees@ceredigion.gov.uk

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..

COFFI A CHLONC COFFEE AND CHAT

Pob dydd Iau am 10.30yb
Every Thursday at 10.30am

Ar | On: Zoom

Cyfle i sgwrsio dros ddished mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.

I gofrestru | To register:
ymholiad@mgsg.cymru



Mae Menter Gorllewin Sir Gâr ar Atom yn cyflwyno | introducing..

PANED A SGWRS CUPPA AND CHAT

Pob dydd Mawrth am 10yb
Every Tuesday at 10am

Yn | At: Caffi'r Atom's Café

Cyfle i sgwrsio dros ddished mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.

I gofrestru | To register:
alma@mgsg.cymru




Sesiwn nesaf | **Next meeting**
Mercher | **Wednesday 12.10.22**

Am ddolen Zoom cysylltwch â Cara
Llywelyn-Davies
cel19@aber.ac.uk
Contact Cara for a Zoom link.

Clwb Darllen Sylfaen

Dydd Mercher | **Wednesdays 15:15 - 16:15**
Clwb darllen bob pythefnos ar Zoom
sy'n addas i ddysgwyr lefel Sylfaen!

Reading Group (held fortnightly
on Zoom) which is suitable for
Foundation level learners!

 dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Sadwrn 8 Hydref
Ffynone, Sir Benfro

Cerddwyr Cylch Teifi Walkers

Sadwrn | **Saturdays 10:30 - 12:30**
Clwb cerdded fisol, croeso i bob lefel
Monthly walking club, all levels welcome

Cywlit | Contact philippa.gibson@gmail.com 01239 654561




Sgwrsio Fin Nos

Nos Fercher olaf y mis (fel rheol)
19:00 - 20:00 Sadwrn 28 Medi

i gael dolen / for a link

Jaci Taylor jmt@aber.ac.uk


Croeso i ddysgwyr ar bob lefel
Learns at all levels are welcome

 dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Clwb Hwbb Maldwyn

Bore Mawrth cyntaf bob mis First Tuesday of the month
10.30 - 11.30 Croeso i bob lefel All levels welcome

Cyswllt | Contact Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk

 dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Mewn Cymeriad yn Cyflwyno / Presents

Cranogwen



AWDUR / AUTHOR

FFION DAFIS

CYFARWYDDWR / DIRECTOR

JANET AETHWY

CAST

LYNWEN HAF ROBERTS

Mewn Cymeriad yn Cyflwyno / Presents

Cranogwen

Morwres. Ysgolfeistres. Bardd. Darlithydd. Pregethwr. Golygydd. Ymgyrchydd. Ffrind. Mewn oes pan oedd disgwyl i ferched eistedd adref yn gwnio'n dawel fe gymerodd y ferch arbennig hon lwybr gwbl wahanol i'w chyfoedion. Yn 26 oed roedd wedi cael ei chadeirio yn fardd, er syndod mawr i bob un dyn a gystadlodd, a hynny am ysgrifennu cerdd am briodas er na phriododd hi erioed ei hun. Daeth Sarah Jane Rees yn enwog nid yn unig yng Nghymru ond ym mhrif ddinasoedd Lloegr ac America. Ond eto ar ôl yr holl deithio a'r areithio dod yn ôl i'w milltir sgwar fyddai hi bob tro - i Langrannog. Pam tybed? Dyma sioe am ferch unigryw, amryddawn ac annisgwyl. Dyma hanes Cranogwen.

Sailor. School Mistress. Poet. Lecturer. Preacher. Editor. Campaigner. Friend. At a time when women were expected to stay at home, quietly sewing, this special woman took a very different path. At the age of 26, she became a chief poet, much to the amazement of every man that applied, for her poem on marriage, though she herself never married. Sarah Jane Rees became famous not only in Wales but in major English cities and in parts of America. But yet, after all her travels and preachings she would always return to her square mile - to Llangrannog. Why? A show about an unique woman, multi talented and unusual. Here's the story of Cranogwen.

LLEOLIADAU'R DAITH / TOUR LOCATIONS

Medi / September 30, 7.30pm
Neuadd Pontgarreg Hall

Hydref / October 4, 7.45pm
Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre

Hydref / October 5, 7.45pm
Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre
(perfformiad Saesneg / English performance)

Hydref / October 6, 7.30pm
Canolfan Gartholwg Centre

Hydref / October 10, 7.30pm
Neuadd y Nant Hall, Clydach

Hydref / October 11, 7.30pm
Neuadd Llanover Hall, Caerdydd / Cardiff

Hydref / October 12, 7.30pm
Yr Egin, Caerfyrddin / Carmarthen

Hydref / October 13, 7.30pm
Neuadd Llanover Hall, Caerdydd / Cardiff
(perfformiad Saesneg / English performance)

Hydref / October 14, 7.30pm
Castell Aberteifi / Cardigan Castle

Hydref / October 19, 7.30pm
Theatr Twm o'r Nant

Hydref / October 20, 7.30pm
Plas Glyn y Weddw, Pwllheli

TOCYNNAU / TICKETS mewncymeriad.cymru

Monumental Welsh Women

Arts
& Business
Cymru

DR. DEWI DAVIES
ENDOWMENT FUND

Dathlu Llwyddiant gan Richard Vale

Braf yw gweld cymaint ohonoch chi'n cystadlu mewn eisteddfodau ledled Cymru. Mae yna lawer iawn o gystadlaethau ar gyfer dysgwyr ar bob lefel bob blwyddyn: barddoniaeth, ysgrifennu creadigol, adrodd, creu adnoddau ar gyfer dysgwyr eraill, cerddoriaeth, crefftau a mwy.

Yn wir, mae yna rywbeth i bawb, ac mae safon y gwaith a'r talent yn syfrdanol.

Mae rhestr o eisteddfodau ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a manylion y cystadlaethau yma, ond bydd eich tiwtor yn gallu helpu os nad ydych chi'n siŵr am sut i gystadlu.

Roedd dewis enghreifftiau o'ch gwaith ar gyfer y darn yma yn anodd iawn, ond dechreuwn ni ar y brig y tro yma gyda rhai o'n dysgwyr mwyaf profiadol sy wedi cyrraedd lefel uchaf y cwricwlwm.

Tasai rhywun wedi dweud wrthyn nhw dair neu bedair blynedd yn ôl y bydden nhw'n gallu ysgrifennu Cymraeg mor hardd a gloyw, bydden nhw wedi chwerrthin mewn anghrediniaeth. Peidiwch â digalonni felly!

Ble gwell i ddechrau na'r Eisteddfod Genedlaethol a cherdd fuddugol Wendy Evans o Aberteifi. Oherwydd Covid a'r ffaith nad oedd eisteddfod am ddwy flynedd yn olynol, roedd Wendy wedi anghofio ei bod hi'n cystadlu. Pan gafodd hi neges i ddweud bod ei soned wedi ennill, roedd hi'n meddwl bod rhywun yn tynnu ei choes.

Y Gors

*Mor llethol yw'r distawrwydd dwys tu draw
Ar draws y gors yn pwyso'r awyr drwm
Â'r pridd yn chwyddo â'r siglen a'r glaw
A'r niwl yn sgubo a throi uwchlaw'r cwm.
Anobaith, byd a bywyd bron ar ben.
Yn unig, wedi'i gwasgu ar bob tu,
Y mae'r cymylau'n gwgu ar y nen
A phwysau dwys yn difa trwy'r dydd du.
Ar ôl y gaeaf gwelir golau clir,
A hollti'r llenni trwm i ryddhau'r wawr
A'r gobaith siŵr. Mae'r haul yn twymo'r tir,
A blodau'n codi, llamu'n uwch fel cawr.
Caneuon adar pêr sy'n dod i gyd
Yn barod nawr i fyw a chwrdd â'r byd.*

O'r dŵch ac anobaith y gors yn y gaeaf y daw bywyd newydd, harddwch a gobaith. Llongyfarchiadau mawr i Wendy.

Celebrating Success by Richard Vale

It is good to see so many of you competing in eisteddfodau around the country. There are very many competitions for learners at every level every year: poetry, creative writing, recitations, creating resources for other learners, music, crafts and more.

There really is something for everybody, and the standard of the work and the talent is amazing.

There is a list of eisteddfodau on the Cymdeithas Eisteddfodau Cymru website with details of the competitions here, but your tutor will be able to help if you are not sure how to compete.

It was difficult to choose examples of you work for this piece, but we we start at the top this time with some of our most experienced learners who have reached the highest level in the curriculum. If anyone had told them thre or four years ago that they would be to write such beautiful and polished Welsh, they would have laughed in disbelief. So do not despair!

Where better to start than the National Eisteddfod a the winning poem by Wendy Evans from Cardigan. Because of Covid and the fact that there was no eisteddfod for two years running, Wendy had forgotten that she was competing. When she heard that her sonnet had won, she thought someone was pulling her leg.

It is notoriously impossible to translate poetry, and the lame attempt below really does not do justice to the beauty of Wendy's carefully wrought lines.

The Bog

*The overwhelming, intense silence across the bog
Weighs on the heavy air
And the earth of the swamp swells with the rain
And the mist sweeps and turns above the valley.
Despair, the world and life at an end.
Lonely, squeezed on all sides,
The clouds frown at the sky
And intense pressure ravages the black day.
After the winter comes clear light,
Tearing open the curtains to release the dawn
And certain hope. The sun warms the land,
And flowers rise up, leaping like giants.
Sweet birdsong comes together
Ready to live and meet the world.*

From the blackness and despair of the bog in the winter comes new life, beauty and hope. Congratulations to Wendy.

Dathlu Llwyddiant (2) gan Richard Vale

Pedwar darn o ryddiaith ar y testun “person arbennig” sy nesaf, a rhannodd y pedwar yma y wobr gyntaf yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Llambled.

Dyma Anne May; yn enedigol o Gei Newydd yng Ngheredigion mae Anne bellach yn byw yn ardal Arberth yn Sir Benfro. Yn y darn yma mae Stan yn cofio ei fam yn ei hangladd.

Ni fyddai Stan byth yn anghofio'r hetiau ysblennydd yng nghynulleidfau'r gymanfa ganu. Hyd heddiw nid oedd Stan erioed wedi meddwl am y rheswm pam roedd rhaid iddo fe sefyll rhwng Mami a'i chwaer, pan oedd e'n grwt ifanc. Heb rybudd, achosodd yr atgof iddo weiddi nerth ei ben "Wrth gwrs - dyna fe! Am fod cantelau'r hetiau godidog hynny mor eang!" Roedd ei ymdrechion i fygu ei weiddi yn ddiangen, am fod y gweinidog byddar bost yn pendwmpian yn garlibwns yn y sêd fawr.

Yn y darn nesaf mae Ian Rouse o Sedgley yn Lloegr yn cofio ei dad-cu, Dai Jones 'The Pale':

Dai Jones 'the Pale' oedd enw fy nhad- cu i. Nid achos bod gwedd welw gyda fe ond oherwydd ei fod e'n byw y rhan fwy o'i oes yn yr un tŷ yn Pale Road, Sgiwen, ger Castell-Nedd. Fel pawb arall ar y pryd gadawodd Dai'r ysgol yn bedair mlwydd ar ddeg oed a gwneud ychydig o swyddi gwahanol cyn ymuno â chwmni bysiau 'United Welsh' fel tocynnwr.

Cerys Paschali sy nesaf. Yn wreiddiol o Ddinas Powys, mae Cerys bellach yn byw yn Dubai.

Safai'r hen fenyw yn ddisymud yn y cysgodion o flaen y llwyfan wrth deimlo curiad y drymiau tambwr yn codi trwy wadnau tenau ei sandalau. Roedd awel yr hwyr yn drwm gyda lleithder a phersawr y coed frangipani. Roedd hi'n gwylio rhes o ddynion ifanc mewn gwisg draddodiadol yn ymdonni o ochr i ochr fel pe baent wedi cael eu cyfareddu â'r drymio. Camodd un ohonynt ymlaen. Nid iddo fe'r ffon camel syml a oedd gan y lleill. Dryll roedd e'n ei daflu i fyny i'r awyr, a oedd yn chwyrlio ac yn troelli ac yn cadw amser â'r gerddoriaeth. Roedd y llanc yn feistr corn ar ei grefft, sef yr iôla, dawnys y Bedowiniaid i ddathlu buddugoliaeth mewn brwydr. Roedd y dorf ar ben ei digon. Ac yn sydyn, er nad oedd wedi ei weld ers talwm, fe wnaeth hi ei adnabod.

Yn Llambled mae Tim Boyle yn byw, ac yn y darn yma mae e'n cofio Ella Richards, menyw ifanc o'r dref. Ymunodd Ella â'r Groes Goch yn 1915 yn 27 oed cyn cael ei hanfon i Suez ac yna i Wlad Groeg. Buodd Ella farw o niwmonia a malaria, a chafodd hi ei chladdu yn Salonika.

Ar ôl diwedd llwyddianus y rhyfela yn Suez, yn 1915 neu 1916, anfonwyd Ella i Wlad Groeg lle bu'n rhan o'r "Rhyfelgyrch Salonika" yn erbyn byddin Bwlgaria. Daeth yr ymgyrch hon, fel "y Ffrynt Gorllewinol", yn dipyn o stalemate (heb lawer o symudiad) am fwy na dwy flynedd. Ond roedd yr amodau yn ofnadwy – hynod o oer yn y gaeaf, ac yn boeth iawn yn yr haf. Roedd clefyd yn rhemp, yn enwedig malaria, gyda mwy na 160,000 o bersonel Prydeinig yn dioddef o'r afiechyd. Bu farw Ella ar y pedwerydd ar ddeg o Hydref, 1918, llai na mis cyn diwedd y rhyfel. Roedd hi'n un ar ddeg ar hugain oed.

Dyma i chi ddau ddarn ffeithiol gan Ian a Tim, a dau ddarn o ysgrifennu creadigol gan Anne a Cerys. Does dim rhyfedd bod y beirniaid wedi penderfynu rhannu'r wobr, ond mae cyfoeth iaith Anne a Cerys a'u defnydd o briod ddulliau ac ymadroddion lliwgar yn drawiadol. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonoch chi.

Celebrating Success (2) gan Richard Vale

Next we have four pieces of prose on the subject of a “special person”, and these four shared the first prize in Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen in Lampeter.

Here is Anne May who was born in Newquay in Ceredigion but now lives near Narberth. In the piece which follows Stan is remembering his mother at her funeral.

Stan would never forget the splendid hats in the hymn singing services. Until today Stan had never thought of the reason why he had to stand between Mami and her sister when he was a little boy. Without warning, the memory caused him to shout at the top of his voice. "Of course, that's it! Because the brims of their magnificent hats were so wide!" His efforts to stifle his shouting were unnecessary because the minister, who was extremely deaf, was snoozing in untidy heap in the deacon's pew.

In the next piece Ian Rouse from Sedgley in England remembers his grandfather, Dai Jones 'The Pale':

Dai Jones 'the Pale' was my grandfather's name, not because he had a pallid complexion but because he lived for most of his life in the same house in Pale Road, Skewen, near Neath. Like everyone else at the time Dai left school at fourteen and did a few different jobs before joining the United Welsh bus company as a conductor.

Cerys Paschali is next. Originally from Dinas Powys, Cerys now lives in Dubai.

The old woman stood motionless in the shade in front of the stage. She could feel the beat of the tambour drums through the soles of her sandals. The evening breeze was heavy with the scent and the moisture of the frangipani trees. She watched a row of young men in traditional dress swaying from side to side to the rhythm of the drums, as if in a trance. One of them stepped forward. Not for him the camel stick held by the others, but a gun which he threw into the air, spinning and whirling in time with the music. The young man has completely mastered the yola, the Bedouin dance to celebrate victory in battle. The crowd was delighted. And suddenly, although she had not seen him in a long time, she recognized him.

Tim Boyle lives in Lampeter, and in this piece he recalls the life of Ella Richards, a young woman from the town. Ella joined the Red Cross in 1915 at the age of 27 before being sent to Suez and then Greece. Ella died of pneumonia a malaria, and she was buried in Salonika.

At the close of the successful campaign in Suez, in 1915 or 1916, Ella was sent to Greece where she joined the Salonika campaign against the Bulgarian army. This campaign, just like the Western Front, turned into something of a stalemate, with little movement for more than two years. The conditions were terrible; it was extremely cold in the winter and very hot in the summer. Sickness was rife, especially malaria, with more than 160,000 British personnel falling ill from the sickness. Ella died on the fourteenth of October 1918, less than a month before the end of the war. She was thirty one years old.

Two factual pieces from Ian and Tim and two pieces of creative writing from Anne and Cerys, and the richness of the language in the pieces by Anne and Cerys, with their use of colourful idioms and expressions, is striking. It is no wonder that the judges decided to share the first prize.

Cletwr

Dal Ati

Grŵp Sgwriso Cymraeg | Welsh Chat Group

Bob pythefnos wyneb yn wyneb @ Caffi Cletwr Tre'r Ddol
Every fortnight in person! Cletwr Cafe, Tre'r Ddol
Sadwrn 11.00 - 11.30 Saturdays
Croeso i bob lefel All levels welcome

Cyswllt | Contact 01970 832113 cletwr@cletwr.com



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Clwb Darllen Mynediad

Dydd Mercher | Wednesdays 15:15 - 16:15

Clwb darllen bob pythefnos ar Zoom sy'n addas i ddysgwyr lefel Mynediad
Reading Group (held fortnightly on Zoom) which is suitable for Mynediad level learners!



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



Am ddolen Zoom cysylltwch â
Cara Llywelyn-Davies
cel19@aber.ac.uk
Contact Cara for a Zoom link



Bore Coffi

Dydd Iau am 11.00 yb
disgled a sgwrs ar-lein.

Croeso i aelodau a
siaradwyr newydd

Ebostiwrch: jen@merchedywawr.cymru



BORE COFFI CYMRAEG YR HWB PENPARCAU WELSH COFFEE MORNING

Medi/Sept: 7 + 20
Hydref/Oct: 5 + 19
Tachwedd/Nov: 2 + 16
11am-12pm

Am ragor o wybodaeth/
For more information: siriol.teifi@ceredigion.gov.uk



Clwb Darllen Mynediad

Dydd Mercher | Wednesdays 15:15 - 16:15

Clwb darllen bob pythefnos ar Zoom sy'n addas i ddysgwyr lefel Mynediad
Reading Group (held fortnightly on Zoom) which is suitable for Mynediad level learners!




dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



Am ddolen Zoom cysylltwch â
Cara Llywelyn-Davies
cel19@aber.ac.uk
Contact Cara for a Zoom link

yratom



SIARAD CYMRAEG?
DEWCH I SGWRSIO A
CHEFNODI SIARADWYR
NEWYDDI!

DYSGU CYMRAEG?
DEWCH I YMARFER -
COME TO PRACTICE!

CREOSO I BOB LEFEL O
GYMRAEG.
ALL LEVELS OF CYMRAEG
ARE WELCOME.

Dechrau:
Starts:
07/09/21

Dydd Mawrth, 10yb-11yb
Dydd Iau, 2yh-3yh
Yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin



Am fwy o wybodaeth: | For more information:
helo@yratom.cymru | 01267 225 131

Come and join us for a chat in Welsh over a pint!
All welcome, from fluent to beginners.

Cwrw â Chlonec

Cymraeg



Ymunwch â ni am
noson o sgwrsio
yn y Gymraeg a Chwrw!

Dydd Sul
2il
Mis Hydref
Am 7yp

The Barn at Brynich

Brecon / Aberhonddu LD3 7SH

Sgwrs Ar-lein i Ddysgwyr

TYLWYTH

GAN / BY DAF JAMES



Danny Grehan
'Dada'



Aled ap Steffan
'Gavin'

Helen Prosser fydd yn holi'r actorion Danny Grehan ac Aled ap Steffan sydd yn ymddangos yn y ddrama 'Tylwyth' gan Dafydd James

Dyma gyfle i chi ddysgu mwy am y cymeriadau a'r perfformiad cyn gweld y ddrama!

Dydd Iau 22/09/2022 19:30 ar Zoom*

*Cofrestrwch erbyn 21/09/2022 i fynychu, a byddwn yn danfon dolen Zoom i chi ar ddiwrnod y digwyddiad

Cofrestru: <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/tylwyth/>

Register: <https://learnwelsh.cymru/learning/tylwyth/>



Penwythnos Awyr Agored

7-9 HYDREF 2022

Gweithgareddau
cyfrwng Cymraeg yn
harddwch Eryri a thref
Caernarfon

CYNNIG
ARBENNIG

Pecyn Penwythnos
£350 twin/dwbwl
£280 sengl

Pris yn cynnwys:

- Gwely a brecwast am ddwy noson
- Taith gerdded heriol i fyny Moel Eilio (8 milltir) gyda Anelu
- Pryd o fwyd mewn bwyty lleol

LLETY
ARALL

CAERNARFON

AM FWY
O FANYLION
post@lletyarall.org
neu
01286 662907



HAF 2022

NEWYDDION CYFFROUS

GARTH NEWYDD, LLANBED

LLE CARTREFOL I ADEILADU HYDER YN Y GYMRAEG



Mae'n darparu:

- Llety yn cynnwys cyrsiau er mwyn codi hyder pobl i siarad Cymraeg.
- Cyfle i fwynhau a rhannu profiadau mewn awyrgylch braf.
- Cyfle i brofi gweithgareddau newydd - ffotograffiaeth, hanes Cymru, crefft a mwy!

• Cyfle i ddod i 'nabod a chymdeithasu gyda siaradwyr iaith gyntaf.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
codiwyder@gmail.com
www.paned.cymru
.....neu galwch heibio!

Garth Newydd
Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7AA



HAF 2022

NEWYDDION CYFFROUS

GARTH NEWYDD, LLANBED

A HOMELY PLACE TO BUILD YOUR CONFIDENCE
IN WELSH



It will provide:

- Accommodation with courses for people to gain confidence in speaking Welsh
- Opportunities to enjoy and share experiences in a friendly environment
- Opportunities to experience new activities - photography, Welsh history, crafts and more!

• Opportunities to get to know and socialise with first language Welsh speakers.
Leave inspired and motivated!

Get in touch for more information:
codiwyder@gmail.com
www.paned.cymru

Garth Newydd
Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7AA



Gwobrau Dysgu Cymraeg Learn Welsh Awards Ceredigion Powys Sir Gâr Yr Enillwyr | Meet the winners

2022

Cyflwynwyd gwobrau Dysgu Cymraeg 2022 mewn seremoni ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ar ddydd Mawrth 2 Awst.

Wrth longyfarch pawb ar eu llwyddiant, dywedodd Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth:

“Llongyfarchion ar eich llwyddiant wrth ddysgu Cymraeg. Hoffwn i ddiolch am wneud yr ymdrech honno, ac am fod mor frwdfrydig eich ymdrechion. Mae iaith unigryw Cymru yn drysor cenedlaethol arbennig, ac yn rhodd i bawb sydd yn byw yma.”

Our Learn Welsh 2022 Awards were presented in a ceremony at the Eisteddfod on Tuesday 2 August.

Congratulating everyone on their success, Professor Elizabeth Treasure, Vice-Chancellor of Aberystwyth University, said:

“Very many congratulations to everyone on their success in learning Welsh. Thank you for making that effort. Wales’ unique language is a special national treasure, and a gift to everyone who lives here.”



**Lynne Blanchfield,
Aberystwyth
Dysgwr y Flwyddyn 2022**



**Cat Roll, Borth
Dysgwr Cymraeg
yn y Cartref 2022**



**Richard Vale
Tiwtor y Flwyddyn 2022**



**Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Cyflogwr y Flwyddyn
2022**



**Wilhelmina Barnden,
Llyfrgell Genedlaethol
Cymru, Dysgwr Cymraeg
yn y Gweithle 2022**

**Clwb Darllen Sir Gâr
Grŵp y Flwyddyn 2022**



Adroddiad llawn [fan hyn](#) To read more see [here](#)

Gwobrau Dysgu Cymraeg Learn Welsh Awards Ceredigion Powys Sir Gâr Yr Enillwyr | Meet the winners

2022

Fel rhan o'r seremoni, cyflwynodd y Prifardd Mererid Hopwood, sy'n Athro yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth, englynion i Diwtor y Flwyddyn, Richard Vale o Gastell Newydd Emlyn, a Dysgwr y Flwyddyn, Lynne Blanchfield o Aberystwyth.

As part of the ceremony, Eisteddfod-chaired poet Mererid Hopwood, Professor in the Department of Welsh and Celtic Studies at Aberystwyth University, presented a poem to both the Tutor of the Year, Richard Vale from Newcastle Emlyn, and Learner of the Year, Lynne Blanchfield from Aberystwyth.




dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Englyn i Richard Vale, Tiwtor y Flwyddyn 2022

Wyt diwtor i'w drysori – yr enaid
a'r wên yn ein gwersi,
y Vale yr haedda'i foli
â chân aur ein diolch ni.

Y Prifardd Mererid Hopwood



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Englyn i Lynne Blanchfield, Dysgwr y Flwyddyn 2022

Yn lantern fach y plentyn – arhosodd
rhyw eisiau'n wreichionyn
i oedi nes rhoi wedyn
olau iaith yn nghalon Lynne.

Y Prifardd Mererid Hopwood



Cefnogi Dysgwyr Digwyddiadau rheolaidd

Want to practise your Welsh?



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Ceredigion

Manylion Details	Diwrnod Day	Amser Time	Lleoliad Location	Pa mor aml? How often?	Cyswllt Contact	Lefel Level
Caffi Cered	Dydd Llun a Gwener	10:00 - 11:00	Ar-lein ar Zoom	Bob wythnos	rhodri.francis @ceredigion.gov.uk	Pob lefel
Coffi a Chonc Aberaeron	Mawrth a Iau	10:30 - 12:00	Tafarn y Castell, Aberaeron	Bob wythnos	ja.jones50@btinternet.com	
Dlshed am Ddou	Mawrth a Iau	14:00	Ar-lein	Bob wythnos	rhidian@mentersirbenfro.com	
Sgwrsio Ffin Nos	Dydd Mercher	19:00 - 20:00	Ar-lein	Nos Fercher olaf y mis	Jack Taylor jmt@aber.ac.uk	Pob lefel
Sgwrs nos Fercher	Dydd Mercher	19:30 - 21:00	Ar-lein	Nos Fercher 1af a 3ydd bob mis	phillipa.gibson@gmail.com	Sylfaen +
Clwb C Aberystwyth	Dydd Iau	11:00 - 12:00	Home Café, Aber	Bob wythnos	j.willimington@btinternet.com	Pob lefel
Bore Coffi Merched y Wawr	Dydd Iau	11:00	Ar-lein	Bob wythnos	jen@merchedywawr.cymru	Hfyddredd
Siop Siarad Llambod	Dydd Iau	14:00	Ar-lein	Bob pythefnos	Ann Bowen Morgan anm55@aber.ac.uk	
Rhannu Geiriau Aberystwyth	Dydd Iau	14:30 - 15:30	Ar-lein	Bob pythefnos	dianenorrell@hotmail.com	
Clwb Hanes	Nos Iau	19:00	Ar-lein	Bob mis (3ydd lau y mis)	Richard Vale rv1@aber.ac.uk	Canolradd, Uwch ac Hfyddredd
CYD Llandysul	Nos Iau	19:30	Y Porth, Llandysul	Bob mis (3ydd lau y mis)	cydllandysul@gmail	
CYD Aberteifi	Dydd Gwener	11:00 - 12:30	Hafan y Pysgot- wyr Aberteifi	Bob wythnos	Howard Evans howard.zwynnant@btinternet.com	
Cerdded a Chlenc Ceredigion	Dydd Gwener	13:00 - 15:00	Ar-lein	Dydd Gwener olaf bob mis		
Cerddwyr Cylch Teifi	Dydd Sadwrn	10:30	Lleoliad yn newid bob mis!	Ail Sadwrn y mis	phillipa.gibson@gmail.com	
Dal Ati yn y Cletwr	Dydd Sadwrn	11:00	Caffi Cletwr, Tre'r ddol	Dydd Sadwrn 1af a 3ydd y mis	dianenorrell@hotmail.com	Pob lefel
Clwb Stori Cymraeg	Nos Sul	19:30 - 20:30	Ar-lein	3ydd Sul o bob mis	fionastory3@gmail.com	

Cefnogi Dysgwyr Digwyddiadau rheolaidd

Want to practise your Welsh?

Powys

Manylion Details	Diwrnod Day	Amser Time	Lleoliad Location	Pa mor aml? How often?	Cyswllt Contact	Lefel Level
Coffi a Chlenc Trefaldwyn	Dydd Llun	13:00	Ar-lein	Llun 1af a 3ydd y Mis	Diane Norell dianenorrell@hotmail.com	Pob lefel
Clwb Llyfrau Aberhonddu	Nos Lun	20:00	Ar-lein	Unwaith y mis	Lisa Jones lij17@aber.ac.uk	Canolradd ac Uwch
Clwb Hwb Maldwyn	Dydd Mawrth	11:00 - 12:00	Ar-lein	Unwaith y mis	Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk	
Siop Siarad Machynlleth	Dydd Mercher	11:00 - 14:00	Senedd-dy Owain Glyndŵr	Bob wythnos	rhian@teires.net	
Sgwrs Ganol Wythnos	Dydd Mercher	14:00	Ar-lein	Bob wythnos	nia@saysomethingin.com	
Cwrw a Chlenc	Nos Fercher	20:00	Arvon Alehouse, Llandrindod	Bob wythnos	dwrgr20@gmail.com	Dechreuwyd /pawb
Bore Coffi Merched y Wawr	Dydd Iau	11:00	Ar-lein	Bob wythnos	jen@merchedywawr.cymru	
Clwb Sgwrsio Amwythig	Nos Iau (1af a 3ydd bob mis)	19:30	The Grove, Bellevue Road, Shrewsbury SY3 7NN	Dwywaith y mis	bryro@btinternet.com	Pob lefel All levels
Clwb Clenc Siop Thomas	Bore Sadwrn	10:30	Caffi Siop Thomas, Penybont	Unwaith y mis	rms12@aber.ac.uk	Pob lefel All levels
Côr Cymraeg Machynlleth	Dydd Sadwrn	11:00 - 13:00	Y Senedd, Machynlleth	4ydd Sadwrn y Mis	jacksonfrant@yahoo.co.uk	Pob lefel
Dal Ati yn y Cletwr	Dydd Sadwrn	11:00	Caffi Cletwr, Tre'r ddol	Bob yn ail Sadwrn	https://bit.ly/2AsFAf0	
Clwb Stori Cymraeg	Nos Sul	19:30 - 20:30	Ar-lein	3ydd Sul o bob mis	fionastory3@gmail.com	



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Cefnogi Dysgwyr Digwyddiadau rheolaidd

Want to practise your Welsh?

Sir Gâr | Carmms

Manylion Details	Diwrnod Day	Amser Time	Lleoliad Location	Pa mor aml? How often?	Cyswllt Contact	Lefel Level
Paned a Sgwrs	Bore Mawrth	10:00 - 12:00	Caffi'r Atom, Caerfyrddin	Bob wythnos	alma@msg.cymru	Pob lefel
Paned a Sgwrs	Bore Mawrth	10:30	Y Cwtsh, Llanelli	Bob wythnos	alaw@mcge.org	Pob lefel
Clwb Darllen i Ddysgwyr	Nos Fawrth	19:00	Ar-lein	Unwaith y mis	nia@msg.cymru	
Paned a Sgwrs	Bore Mercher	10:30	Parc y Bocs, Cydweli	Bob wythnos	alaw@mcge.org	Pob lefel
Paned a Phapur	Dydd Mercher	12:00	Amgueddfa Wlân Drefach Felindre	Bob yn ail wythnos	luned@msg.cymru	Pob lefel
Clwb Darllen Mynediad	Dydd Mercher	13:45 - 14:45	Ar-lein	Bob yn ail wythnos	Cara Llywelyn-Davies cel19@aber.ac.uk	Mynediad 1 a 2
Clwb Darllen Sylfaen	Dydd Mercher	15.15 - 16:15	Ar-lein	Bob yn ail wythnos	cel19@aber.ac.uk	Sylfaen
Coffi a Chlonc	Dydd Iau	10:30	Ar-lein	Bob wythnos	ymholiad@msg.cymru	
Bore Coffi Merched y Wawr	Dydd Iau	11:00	Ar-lein	Bob wythnos	jen@merchedywawr.cymru	
Clwb Clecs Trysorau	Dydd Iau	13:00 - 14:00	Ar-lein	Bob pythefnos	dysgucymraeg@sirgar.gov.uk	
Te Prynhawn	Dydd Iau	15:00 - 16:00	Ar-lein	Bob pythefnos	dysgucymraeg@sirgar.gov.uk	Pob lefel ond Uwch
Clwb Hanes	Nos Iau	19:00	Ar-lein	Bob mis (3ydd Iau y mis)	Richard Vale riv1@aber.ac.uk	Canolradd, Uwch ac Hyfedredd

